Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Perfformiad**
Dyddiad y cyfarfod	**24 Tachwedd 2022**
Aelod/Swyddog Arweiniol:	**Nicola Kneale, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio Dros Dro** **Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol**
Awdur yr Adroddiad:	**Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad ac Emma Horan, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad**
Teitl:	**Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Medi 2022**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad mis Medi 2022 o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor (atodiad 1) a'n datganiad parodrwydd i dderbyn risg (atodiad 2).

2.2. Gofynnwn i'r Pwyllgor ystyried os yw'n fodlon gyda rheoli risg yn y cyngor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod Craffu yn trafod y risgiau, sgoriau a rheolaethau yn y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol (atodiad 1), gan gynnwys statws bob risg yn erbyn ein Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg (atodiad 2).

3.2. Bod Craffu yn ystyried y datganiad parodrwydd i dderbyn risg ac yn cael diweddariad ar lafar ar unrhyw newidiadau (atodiad 2).

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet sydd yn datblygu ac yn berchen ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Caiff ei hadolygu ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn ystod sesiwn friffio'r Cabinet.

4.2. Yn dilyn pob adolygiad, caiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

4.3. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Chwefror 2020. Mae'r papurau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar gael ar-lein

4.4. Defnyddiwyd dull parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor yn y trafodaethau a gafwyd gyda pherchnogion risg, a chaiff ein lefel risg (yn seiliedig ar y sgôr) ei ddadansoddi o fewn y Gofrestr Risg Gorfforaethol (atodiad 1).

4.5. Yn ystod yr adolygiad diweddaraf hwn bu nifer o ddiweddariadau. Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu gwneud i'r gofrestr risg ac wedi'u nodi ar ddechrau pob risg yn atodiad 1. I grynhoi (crynodeb yn atodiad 3), mae'r newidiadau mwyaf arwyddocaol yn cynnwys:

- Risg 01: Y risg o wall diogelu neu ymarfer difrifol, ble mae gan y cyngor gyfrifoldeb, gan olygu niwed difrifol neu farwolaeth, wedi cynyddu yn ei sgôr cynhenid (A1 - Risg Critigol Bron yn Sicr / Effaith uchel iawn) a'i sgôr gweddilliol (A1 - Risg Critigol Bron yn Sicr / effaith uchel iawn). Mae sgôr y risg wedi ei gynyddu ar sail ein hasesiad fod y siawns o hyn yn digwydd yn uwch ar hyn o bryd nag oedd yn flaenorol. Er nad ydym yn ystyried y tebygolrwydd fel "bron iawn yn sicr o ddigwydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau" (sef y diffiniad o Debygolrwydd Risg A yn ein methodoleg risg), mae'r risg yn sicr wedi cynyddu. Felly mae'n teimlo'n briodol i gynyddu'r sgôr Tebygolrwydd Risg, ac mae hynny'n golygu ei gynyddu o B i A. Mae cynyddu sgôr y risg yn galluogi'r risg i gael ei flaenoriaethu a'i uwchgyfeirio ymhellach, sy'n teimlo'n briodol ac yn angenrheidiol ar hyn o bryd.
- Risg 12: Y risg o adroddiad(au) hynod o negyddol gan reoleiddwyr allanol. Mae sgôr y risg wedi cynyddu i C3 - Risg Cymedrol: Effaith Posib / Canolig.
- Risg 36: Y risg bod yr amgylchedd economaidd ac ariannol yn gwaethygu y tu hwnt i ddisgwyliadau cyfredol, ac yn cael effaith niweidiol ar fusnesau lleol a chaledi economaidd i'r gymuned leol. Mae'r sgoriau risg cynhenid a gweddilliol wedi cynyddu.

- Risg 43: Y risg nad oes gan y cyngor y cronfeydd neu'r adnoddau i gwrdd â'i oblygiadau statudol o dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 Rydym yn cynnig dad-ddwysáu'r risg hwn iddo gael ei reoli gan y Gwasanaeth.
- Risg 44: Y risg o Glefyd Coed Ynn (ADB) yn Sir Ddinbych yn arwain at achosion iechyd a diogelwch sylweddol sydd yn cynrychioli risg posib i fywyd. Perchennog y risg erbyn hyn yw Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad Ar sail gwell gwybodaeth, mae sgoriau risg cynhenid a gweddilliol wedi gostwng (ond yn parhau y tu hwnt i'n parodrwydd i dderbyn risg).
- Risg 47: Y risg y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig newydd Gogledd Cymru yn golygu y bydd y cyngor yn cael llai o ddylanwad a rheolaeth ar lefel leol. Rydym yn cynnig dad-ddwysáu'r risg hwn iddo gael ei reoli gan Wasanaeth(au).

4.6 Dylid nodi fod y Tîm Gweithredol Corfforaethol wedi cynnal adolygiad o Risg 01: Diogelu (17 Hydref 2022).[1] Bydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol yn adolygu'r risg hwn yn fisol, a bydd y Cabinet yn derbyn diweddariad ar lafar yn fisol yn ei sesiwn Briffio.

4.7 Parodrwydd i dderbyn risg

- Yn bresennol mae risgiau 1, 6, 13, 18, 21, 27, 33, 34, 36, 44, a 45 yn anghyson â Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor (atodiad 2).
- Gan ddileu risgiau 43 a 47 ar y sail y cynigir eu tynnu, mae gennym gyfanswm o 20 risg ac 11 sy'n anghyson â'n parodrwydd i dderbyn risg (55%). Roedd ein hadolygiad Chwefror 2022 yn cynnwys 22 risg ac roedd 14 yn anghyson gyda'n parodrwydd i dderbyn risg (64%).

4.8 Datganiad Parodrwydd i dderbyn risg

- Cafodd datganiad parodrwydd i dderbyn risg y cyngor (crynodeb) yn atodiad 2 a datganiad llawn yma) ei adolygu ddiwethaf ym Medi 2020.

[1] Bu i ni hefyd argymell ychwanegu risgiau economaidd mewn perthynas â chyllid y cyngor (risg 6) a busnesau a'r gymuned (risg 36) i raglen gwaith i'r dyfodol y Tîm Gweithredol Corfforaethol.

- Bydd y datganiad yn cael ei adolygu, gan y Cabinet, ar 14 Tachwedd (ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd yr adroddiad hwn). Mae'r adolygiad hwn yn amserol, o ystyried fod gennym gyngor a chynllun corfforaethol newydd.
- Dylai'r datganiad adlewyrchu ein parodrwydd nawr mewn byd ôl pandemig, ôl Brexit, ble mae costau cynyddol a rhagolygon economaidd ansicr yn cyflwyno heriau i ni wrth ddarparu gwasanaethau a phrosiectau, ac yn bygwth canlyniadau a rennir o ran annibyniaeth a chadernid personol a chymunedol.
- Tynnwn sylw arbennig at ein parodrwydd i dderbyn risg agored presennol mewn perthynas â phrosiectau ariannol, a allai fod yn briodol o ystyried pwysau ariannol cynyddol.
- Ein parodrwydd i dderbyn risg minimol mewn perthynas â Gweithlu: bydd y Telerau ac Amodau (gweler atodiad 2 neu pp.36-38 yma) yn cael eu haddasu i barodrwydd i dderbyn risg gofalus, i adlewyrchu'r ffordd rydym yn 'addasu' prosesau recriwtio - mewn ffordd ddiogel - i leddfu heriau o ran llenwi swyddi.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Diben y Gofrestr Risg Gorfforaethol yw amlygu digwyddiadau posibl yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu'r cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r camau rheoli a gweithredu a amlygir felly'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau datblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn dogfennu risgiau sydd wedi'u canfod, a'r camau lliniaru. Nid yw'r broses o ddatblygu ac adolygu'r ddogfen ei hun yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r nodau lles. Fodd bynnag, dylid asesu effaith ar les ar gyfer unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy'n cael eu llunio o ganlyniad i gam lliniaru.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd trafodaethau unigol gyda Pherchnogion Risg (Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol) gan gynnwys mewnbwn gan swyddogion sy'n arwain ar gamau pellach er enghraifft. Cyflwynwyd adroddiad i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol.

8.2. Ceir trafodaeth wedyn am y gofrestr gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet i gytuno a/ neu wneud diwygiadau pellach.

8.3. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried yr adolygiad risg mis Medi hwn ar 23 Tachwedd, 2022.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi wrth ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adolygiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau uwch swyddogion ac yn nodi bod rhaid i weithdrefnau a phrosesau clir fod yn eu lle i reoli risg yn effeithiol.

11.3 Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau Craffu mewn perthynas ag edrych ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor, un ai gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor.